

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 24 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
- 4 Cwestiynau i'r Trefnydd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Tynnwyd cwestiwn 8 (OAQ15136) yn ôl.

Treftadaeth Ddiwydiannol Cymru

C9 Brian Gibbons: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cymru? (OAQ15131)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson): Mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei waith hyrwyddo yn tynnu cryn dipyn o sylw at ein treftadaeth ddiwydiannol. Mae Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru hefyd yn gwneud gwaith hyrwyddo sylweddol. Maent newydd gwblhau datblygiadau newydd yn yr amgueddfa lechi yn Llanberis; mae cynlluniau mawr ar y gweill ar gyfer Pwll Mawr, Blaenafon, ac Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Nhre-fach; a byddant yn adeiladu amgueddfa fawr ger y môr yn Abertawe mewn cydweithrediad â Chyngor Sir a Dinas Abertawe.

Hyrwyddo Caerdydd fel Prifddinas Diwylliant yr UE yn 2008

C10 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed i hyrwyddo Caerdydd fel Prifddinas Diwylliant yr UE yn 2008? (OAQ15191)

Jenny Randerson: Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi sefydlu tîm i ddatblygu ei gais ar gyfer statws Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu £500,000 i gefnogi datblygiad y cais hwnnw.

Mae'r tîm wedi lansio gwefan i roi cyhoeddusrwydd i fanteision cais llwyddiannus i Gymru gyfan, ac mae'r tîm wedi ymgynghori'n helaeth, gan chwilio am syniadau ar gyfer prosiectau y gellid eu datblygu i atgyfnerthu cysylltiadau y tu allan i Gaerdydd.

Cynnydd Canolfan Mileniwm Cymru

C11 Tom Middlehurst: A all y Gweinidog adrodd ar gynnydd Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ15144)

Jenny Randerson: Fel y gwyddoch bellach o'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr, cwblhawyd y trafodaethau ynghylch hyn ac yr wyf yn falch o weld bod y cytundeb ar fin cael ei lofnodi.

Sefyllfa Prosiect Canolfan Mileniwm Cymru

C12 Alison Halford: A wnaiff y Gweinidog roi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch prosiect Canolfan y Mileniwm? (OAQ15128)

Jenny Randerson: Fel y gwyddoch bellach o'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr, cwblhawyd y trafodaethau ynghylch hyn ac yr wyf yn falch o weld bod y cytundeb ar fin cael ei lofnodi.

Gêm Bêl Droed rhwng Dinas Caerdydd a Leeds United

C13 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau pêl-droed ac awdurdodau'r heddlu yn dilyn digwyddiadau gêm bêl-droed Dinas Caerdydd a Leeds United ar 6 Ionawr 2002? (OAQ15199)

Jenny Randerson: Nid wyf wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau gydag awdurdodau pêl-droed ac awdurdodau'r heddlu yn dilyn digwyddiadau'r gêm bêl-droed rhwng Dinas Caerdydd a Leeds United.

Yn dilyn yr ymchwiliad gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru a'r Gymdeithas Pêl-droed, cafodd Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ei gyhuddo o gamymddwyn ac mae gan y clwb, dan reolau Gymdeithas Pêl-droed Cymru, 10 diwrnod i ateb y cyhuddiad yn ffurfiol. Yn dilyn yr ymateb, bydd Gymdeithas Pêl-droed Cymru yn penodi comisiwn i wrando'r mater yn ffurfiol.

Trais a Welwyd wedi Buddugoliaeth Dinas Caerdydd dros Leeds United

C14 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trais a welwyd yn dilyn buddugoliaeth Dinas Caerdydd dros Leeds United? (OAQ15122)

Jenny Randerson: Yn dilyn yr ymchwiliad gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru a'r Gymdeithas Pêl-droed, cafodd Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ei gyhuddo o gamymddwyn ac mae gan y clwb, dan reolau Gymdeithas Pêl-droed Cymru, 10 diwrnod i ateb y cyhuddiad yn ffurfiol. Yn dilyn yr ymateb, bydd Gymdeithas Pêl-droed Cymru yn penodi comisiwn i wrando'r mater yn ffurfiol.

Mae unrhyw drais mewn gemau pêl-droed, neu unrhyw ddigwyddiad arall sy'n ymwneud â chwaraeon, yn annerbyniol. Yr wyf yn sicr y bydd clybiau pêl-droed Dinas Caerdydd a Leeds United yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto.

Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ15137) yn ôl.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Fforwm Coetiroedd

C8 Richard Edwards: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar gyfarfod cyntaf y fforwm coetiroedd? (OAQ15159)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm coetiroedd ar 10 Ionawr. Cytunwyd ar bwrsas a sgôp y fforwm, ynghyd â sefydlu pum gweithgor i gyflawni pob un o'r amcanion strategol a amlinellwyd yn y ddogfen strategol 'Coetiroedd i Gymru'.

Yn y cyfarfod, addewais adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar y cynnydd, a bwriadaf wneud hyn yn fy adroddiadau i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Entrepreneuriaeth yng Nghefn Gwlad Cymru

C9 Richard Edwards: Sut y mae'r Gweinidog yn annog entrepreneuriaeth yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ15158)

Carwyn Jones: Mae'r economi wledig yn rhan gyfannol o economi ehangach Cymru. Mae 'Cymru'n Ennill', ein strategaeth datblygu economaidd genedlaethol; 'Cynllun i Gymru 2001'; a'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth oll yn pwysleisio ein hymrwymiad i gefnogi menter ledled Cymru mewn modd cydlynol.

Yn ogystal, yr ydym wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer Amcanion 1, 2 a 3, a LEADER+, a'r cynllun datblygu gwledig, i sicrhau bod hyrwyddo menter ac entrepreneuriaeth yn digwydd drwy Gymru gyfan, gan gynnwys y cymunedau gwledig.

Strategaeth Fiomass

C10 Peter Black: Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi strategaeth fiomass? (OAQ15157)

Carwyn Jones: Gofynnais i'r Comisiwn Coedwigaeth fod â chyfrifoldeb arweiniol dros grŵp strategaeth coetir a biomas. Gofynnwyd i'r grŵp, sydd eisoes wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf, gyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer y sector erbyn diwedd mis Mai 2002.

Materion Iechyd Anifeiliaid

C11 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio'r camau diweddaraf a gymerwyd i ddatganioli materion iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ15182)

Carwyn Jones: Mae trafodaethau ar waith gyda Llywodraeth y DU i drosglwyddo rhagor o faterion sy'n ymwneud â iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried canlyniad yr adolygiad presennol o gyngor milfeddygol a chyngor proffesiynol perthnasol i'r Cynulliad, ynghyd ag amseriad, adnoddau a chysylltiadau gydag adrannau amaethyddol eraill a'r UE.

Cyfrifoldebau Datganoledig o ran Materion Morol

C12 Cynog Dafis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i esbonio'r cyfrifoldebau datganoledig o ran materion morol? (OAQ15178)

Carwyn Jones: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau datganoledig ar nifer o faterion morol. Mae gennyf gyfrifoldeb dros bysgodfeydd sydd hyd at 12 milltir o'r arfordir. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am yr ardal y tu hwnt i 12 milltir, hyd at 200 milltir – hynny yw, terfynau pysgodfeydd y DU.

Yn ychwanegol at hyn, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau i gyflwyno is-ddeddfau i reoli eogiaid ifanc (eog a sewin) hyd at chwe milltir, a gall pwyllgorau pysgodfeydd môr yr awdurdodau lleol gyflwyno is-ddeddfau i reoli pysgod môr, ac at bwrsasau amgylcheddol eraill, hefyd hyd at chwe milltir. Yn y ddau achos, rhaid i Weinidogion ystyried, a lle y bo'n berthnasol, gadarnhau is-ddeddfau y grwpiau hyn.

Mae gan gydweithwyr gweinidogol eraill hefyd gyfrifoldeb dros faterion morol o fewn eu portffolios.

Iechyd a Diogelwch ym myd Ffermio

C13 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud i hybu iechyd a diogelwch ym myd ffermio? (OAQ15155)

Carwyn Jones: Mae Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a swyddogion y Cynulliad yn parhau i gadw cysylltiad agos ar faterion yn ymwneud â iechyd a diogelwch. Er enghraifft, yr wythnos diwethaf buont yn cynnal cyfarfod i drafod sut y bydd ffermydd arddangos Cyswllt Ffermio yn gweithredu'n ddiogel pan ddaw ymwelwyr i'w gweld, a sut bydd y ffermydd yn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ar faterion iechyd a diogelwch i ffermwyr a fydd yn ymweld.

Methu Dyddiadau Cau Cynlluniau Iawndal (Trefn Apelio)

C14 David Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y drefn apelio i ffermwyr sy'n colli dyddiadau cau cynlluniau iawndal am eu bod yn yr ysbyty? (OAQ15152)

Carwyn Jones: Mater i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw taliadau iawndal yn sgîl clwy'r traed a'r genau.

Cynllun Datblygu Gwledig

C15 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ystyried cynlluniau amgylcheddol unigol, megis plygu perthi a chodi ffensys yn hytrach na chynlluniau fferm-gyfan fel rhan o'r adolygiad canol cyfnod o'r cynllun datblygu gwledig? (OAQ15211)[R]

Carwyn Jones: Fel rhan o broses o weithredu 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol', yr wyf wedi sefydlu gweithgor i gynghori'r Cynulliad ynghylch y modd y dylai ymdrin â'r adolygiad canol cyfnod o'r polisi amaethyddol cyffredin. Bydd gwaith y gweithgor yn cynnwys ystyried materion amaeth-amgylcheddol.

Cwestiynau i'r Trefnydd

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

C7 Jonathan Morgan: A all y Gweinidog wneud datganiad ar strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru a'i effaith yng Nghanol De Cymru? (OAQ15197)

Y Trefnydd (Andrew Davies): Bydd Canol De Cymru yn elwa'n uniongyrchol wrth roi 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales' ar waith drwy amrywiol fecanweithiau. Bydd y rhain yn cynnwys darparu cefnogaeth TGCh am ddim i fusnesau lleol drwy ganolfannau Cyswllt Busnes yng Nghaerdydd ac Abercynon a mynediad rhad i'r rhyngwrwyd drwy ganolfannau cyswllt dysgu lleol. I sicrhau y caiff TGCh ei defnyddio i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy, mae nifer o wardiau yng Nghanol De Cymru, megis Splot a Threherbert, wedi eu cynnwys yn rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yn ogystal, bydd Canol De Cymru yn derbyn cyfran o £9.9 miliwn gan y Cynulliad, i ddarparu byrddau gwyn digidol rhyngweithiol ac offer amlgyfrwng i ysgolion ledled Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Tynnwyd cwestiwn 8 (OAQ15170) yn ôl.

Mastiau Trosglwyddo

C9 David Lloyd: Faint o fastiau trosglwyddo ychwanegol fydd eu hangen i ddarparu cysylltedd band llydan di-wifr 28 a 40 gigahertz yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle nad oes cysylltedd ffibr-opteg ar gael? (OAQ15218)

Andrew Davies: Gellir darparu cysylltedd band llydan drwy nifer o wahanol dechnolegau a dim ond un ohonynt yw'r cysylltiad di-wifr sefydlog. Rhaid ystyried sawl amrywiaeth wrth geisio amcangyfrif y nifer o fastiau sy'n angenrheidiol, gan gynnwys pa dechnoleg ddi-wifr a ddefnyddir ac i ba raddau y gall gweithredwyr FWA leoli eu trosglwyddyddion ar y mastiau presennol. Felly mae'n amhosibl rhagweld

sawl mast ychwanegol fydd eu hangen i ddarparu cysylltedd 28 a 40GHz lle nad yw cysylltedd ffibr-opteg yn ddigon.

Darparu Llinellau Band Llydan neu Linellau Tanysgrifio Digidol Anghydamserol i'r Cynulliad

C10 Alison Halford (Delyn): Faint o ystyriaeth mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i ddarparu llinellau band llydan neu ADSL (Llinellau Tanysgrifio Digidol Anghydamserol) i'r Cynulliad? (OAQ15165)

Andrew Davies: Ar hyn o bryd, mae is-grŵp technoleg gwybodaeth Pwyllgor y Tŷ yn ystyried potensial cysylltiadau ADSL i swyddfeydd etholaethau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried unrhyw argymhellion ynghylch ADSL gan Bwyllgor y Tŷ yn ei dro.

Yn y tymor hwy, y bwriad yw y bydd y cytundeb yn lle OSIRIS yn darparu rhwydwaith llais a data integredig i bob rhan o'r Cynulliad, gan weithio'n gynt o lawer nag y gall wneud ar hyn o bryd. Cyflymu'r cysylltiad â swyddfeydd etholaethau'r Aelodau, neu lle bo'n briodol, â'u cartrefi, a hynny am gost resymol, yw un o'r prif resymau dros brynu'r system newydd. Bydd y cytundeb newydd yn ei le erbyn mis Ionawr 2004. Nid oes neb yn gwybod eto pa mor fuan y gellir ei ddefnyddio er mwyn gwella cysylltiadau cyfathrebu.

Yn ychwanegol at hyn, mewn ymarfer ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, mae gwaith ar droed i nodi dewisiadau i ehangu'r rhwydwaith a sefydlir o ganlyniad i gynllun dysgu gydol-oes y Cynulliad ar linellau band llydan, y tu hwnt i'w gylch gorchwyl gwreiddiol, sef awdurdodau lleol, ysgolion a chanolfannau dysgu eraill.

Hyrwyddo E-lywodraeth

C11 Peter Black: Sut mae'r Gweinidog yn hyrwyddo e-lywodraeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ15167) [R]

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydlynu'r gweithgareddau hyn o dan ymbarél 'Cymru Ar-lein'. Mae Cyngor y Bartneriaeth wedi cytuno ar raglen hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth. Mae grŵp tasg a gorffen ar hyn o bryd yn chwilio am y ffordd orau o uno darpariaeth gwasanaethau electronig a ddarperir gan lywodraeth leol, cyrff a noddir gan y Cynulliad, adrannau eraill o'r Llywodraeth, megis Cyllid y Wlad a'r Asiantaeth Budd-daliadau, a'r Cynulliad.

Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ15169) yn ôl.

Datblygiad y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

C13 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt strategaeth TGCh y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ15174)

Andrew Davies: Lanswyd 'Cymru Ar-lein' yn ffurfiol yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ym mis Tachwedd ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn fis Gorffennaf diwethaf. Sefydliwr grwpiau gweithredu ar hyn o bryd, ac mae'r un cyntaf, ar sgiliau TGCh a e-ddysgu, wedi cwrdd. Mae'r cynllun i osod cysylltiadau band llydan mewn awdurdodau lleol yn mynd drwy'r cam caffael ar hyn o bryd, gyda chyflenwyr yn dangos diddordeb mawr, sy'n galonogol. Mae'r broses o greu hunaniaeth unol i'r Cynulliad a'r cyrff a noddir gan y Cynulliad wedi dechrau, wrth baratoi am ddatblygu porth i Gymru gyfan. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan 'Cymru Ar-lein' ar www.cymru-arlein.cymru.gov.uk

Defnydd Technoleg Gwybodaeth yng Nghymoedd y De

C14 Geraint Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba fentrau sydd wedi eu sefydlu i hyrwyddo defnyddio Technoleg Gwybodaeth yng Nghymoedd y De? (OAQ15172) [W]

Andrew Davies: Fel y gwnaeth mewn manau eraill o Gymru, mae 'Cymru Ar-lein' wedi sefydlu amrywiaeth o fentrau yng nghymoedd y De. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cefnogaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhad ac am ddim i fusnesau lleol drwy'r ganolfan Cyswllt Busnes yn Abercynon a mynediad rhad i'r rhyngwyd drwy ganolfannau cyswllt dysgu lleol ym Mhontypridd ac Aberdâr. Er mwyn sicrhau y defnyddir TGCh i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy, mae nifer o wardiau, fel Pen-y-waun a Threherbert, wedi'u cynnwys yn rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi darparu £9.9 miliwn ar gyfer cael byrddau gwyn digidol rhyngweithiol ac offer amlgyfrwng i ysgolion ledled Cymru. Mae awdurdod addysg lleol Rhondda Cynon Taf wedi rhoi cynnig am y cyllid hwn.

Cysylltedd Band Llydan

C15 Cynog Dafis: Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod gan Gymru yr un cysylltedd band llydan ag sydd eisoes i'w gael yn Ne Corea?

Andrew Davies: Yr wyf yn ymwybodol bod De Corea gyda'r gorau yn y byd o ran ymgymryd â chysylltedd band llydan. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys ei demograffeg a'i pholisïau tai. Byddwn wrth fy modd petai niferoedd defnyddwyr band llydan yng Nghymru yr un â niferoedd De Corea a hynny cyn gynted ag y bo modd. Dyna'r rheswm bod cysylltedd band llydan yn un o brif elfennau 'Cymru Ar-lein'.

I ddatblygu'r mater hwn, comisiynwyd astudiaeth ar y cyd rhwng y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru i ystyried ffyrdd o'i weithredu. Cefnogwyd yr astudiaeth hon mewn egwyddor gan Gabinet y Cynulliad y llynedd. Cyflwynir cynllun gweithredu wedi ei gostio i mi fis nesaf. Disgwyliaf i'r cynllun gynnwys amrywiaeth o ddewisiadau a fydd yn helpu i ysgogi'r cyflenwad a'r galw am gysylltedd band llydan.